Un Llais Cymru

One Voice Wales

# MODEL REOLIADAU ARIANNOL AR GYFER CYNGHORAU CYMUNED A THREF YNG NGHYMRU

Cynhyrchwyd y templed Model Reoliadau Ariannol hwn gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol (NALC) ym mis Ebrill 2024 ar gyfer Un Llais Cymru. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Ni all NALC dderbyn cyfrifoldeb am gamgymeriadau, hepgoriadau a newidiadau i wybodaeth wedi cyhoeddi'r ddogfen.

Nodiadau i gynorthwyo gyda defnyddio'r templed hwn:

1) Mae'r ddogfen hon yn fodel ar gyfer cynghorau o bob maint i'w ddefnyddio i ddatblygu eu rheoliadau ariannol eu hunain, sy'n gweddu i faint y cyngor a'r gweithgareddau mae'n eu cyflawni.
2) Mae testun tywyll yn dangos gofynion cyfreithiol, na all y cyngor eu newid na'u heithrio.
3) Ar gyfer y gweddill, mae angen i bob cyngor addasu'r model yn ôl ei faint a'i strwythur. Er enghraifft, mae gan rai cynghorau glerc a SAC, a sawl aelod arall o staff efallai, tra bod gan eraill un aelod o staff yn glerc/SAC. Mae gan rai cynghorau bwyllgorau, mae gan rai lefel uchel o ddirprwyo ac mae rhai yn gwneud yr holl benderfyniadau yng nghyfarfodydd y cyngor llawn. Mae llawer yn defnyddio taliadau ar-lein erbyn hyn, ond mae eraill yn dal i ddibynnu ar sieciau.
4) Mae cromfachau tro yn dangos geiriau, brawddegau neu adrannau y gellir eu tynnu allan os nad ydynt yn berthnasol, neu eu newid yn ôl amgylchiadau'r cyngor. Enghraifft o hynny yw'r ymadrodd {neu bwyllgor y dirprwywyd iddo'n briodol}, y gellir ei ddileu os nad oes unrhyw bwyllgorau.
5) Meysydd penodol all fod angen eu haddasu:
   a) Yn 1.5 – ai'r Clerc yw'r SAC?
   b) Yn adran 4, a oes gan y cyngor bwyllgorau a sawl blwyddyn sy'n cael ei rhagfynegi?

c) Yn 5.6, a yw'r cyngor yn rhoi gwahoddiad agored i dendro, neu a yw'n gwahodd cwmnïau penodol?

d) Yn 5.9, a yw prisiau ar-lein yn dystiolaeth dderbyniol?

e) Yn 5.13, 5.15 a 5.17, a oes gan y cyngor bwyllgorau?

f) Yn 5.16, a fydd cynghorydd fyth yn cael ei gyfarwyddo i wneud archeb?

g) Yn 5.20, a oes isafswm lefel ar gyfer archebion swyddogol?

h) Mae Adran 6 yn cynnwys sawl dewis gwahanol ar gyfer dirprwyo i bwyllgorau neu swyddogion, cymeradwyo anfonebau yn unigol neu mewn sypynnau, neu gymeradwyo taliadau contractiol rheolaidd ar ddechrau'r flwyddyn.

i) Mae Adrannau 7, 8 a 9 hefyd yn cynnwys sawl dewis gwahanol, gan gynnwys geiriad pan mae'r clerc yn llofnodydd. Pwrpas y rhain yw galluogi newid Rheoliadau Ariannol cyngor yn ôl yr hyn maen nhw'n ei wneud mewn gwirionedd, ac nid i orfodi unrhyw gyngor i newid yr hyn maen nhw'n ei wneud.

j) Mae Adran 10 yn cynnig dau ddewis, gydag arian mân neu hebddo.

k) Mae 13.6 yn cynnig dewisiadau gwahanol ar gyfer cynghorau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW a rhai sydd heb wneud – defnyddiwch un yn unig.

l) Gellir tynnu 13.7 ac 13.8 allan os nad ydynt yn berthnasol i'r cyngor.

m) Gellir dileu llawer o Adran 16 os nad yw'n berthnasol.

n) 17.3, ai'r Clerc yw'r SAC neu a fydd y SAC yn ymgynghori â'r Clerc?

6) Mae cromfachau sgwâr yn dangos ble y mae angen i'r cyngor nodi pwy, neu faint, neu beth yw'r cyfnod amser. Er enghraifft efallai y byddai'n rhaid i [£500] fod yn £100, neu efallai y byddai'n rhaid i [Hydref] fod yn Tachwedd, neu efallai y byddai'n rhaid i [cyngor] ddweud y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau.

   a) Yn 4.1 a 4.7, dewiswch y geiriad ar gyfer Lloegr neu Gymru, yn ôl eich lleoliad.

   b) Yn Adran 4, mae angen i'r cyngor bennu'r amserlen ar gyfer pennu ei gyllideb.

7) Mae'n heriol ceisio cynnig arweiniad ar osod terfynau ariannol. Mae cyngor sy'n gwario £1,000 y flwyddyn yn annhebyg o ddirprwyo awdurdod i wario £500 i'w swyddog priodol, ond gallai cyngor sy'n gwario £5 miliwn y flwyddyn farnu fod £5,000 yn uchafswm rhesymol. Mae angen i bob cyngor osod ei derfynau ei hun, sy'n helpu, yn hytrach na tharfu, ar ei waith.

8) Terfynau allweddol y dylid eu gosod:

   a) Yn 5.6, ar ba derfyn fydd y cyngor yn mynnu proses dendro ffurfiol i sicrhau cystadlu teg, yn hytrach na gofyn am ddyfynbrisiau yn unig? Os yw hwn yn cael ei osod yn rhy isel, gall atal rhai cyflenwyr rhag cynnig. Efallai y byddai rhai cynghorau llai yn defnyddio tendrau ffurfiol bob ychydig flynyddoedd yn unig neu ddim o gwbl.

   b) Yn 5.8, ar ba derfyn fydd y cyngor yn mynnu dyfynbrisiau pris gosod yn hytrach nac amcan brisiau?

   c) Yn 5.9, ar ba lefel ellir gwneud pryniannau llai heb gystadleuaeth?

d) Yn 5.15, ar ba lefel ellir gwneud pryniannau trwy awdurdod dirprwyedig (wedi cydymffurfio â'r rheolau am gael prisiau)?

e) Yn 5.18, faint all y clerc ei ymrwymo i'w wario mewn argyfwng?

f) Yn 6.9, a all talu anfonebau (ar gyfer pryniannau a awdurdodwyd yn barod) gael ei awdurdodi gan swyddog trwy awdurdod dirprwyedig fel mater o egwyddor gyffredinol, neu i osgoi problemau yn unig?

g) Yn Adran 9, beth yw'r terfynau ar gyfer taliadau cerdyn?

h) Yn 16.5, gwerth faint o asedau ellir eu prynu neu eu gwaredu, heb orfod cael cydsyniad y cyngor?

9) Mae'r rhestr gynnwys yn dabl sy'n tynnu penawdau adrannau allan o'r ddogfen. Gellir ei diweddaru trwy wasgu ar y rhestr gynnwys, ac mae tab yn dweud "diweddaru tabl" yn ymddangos ar ben y rhestr.

10) Unwaith y cafodd y model hwn ei deilwra i anghenion y cyngor, dylid mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol dilynol (gan ychwanegu enw'r cyngor ar y top) mewn cyfarfod o'r cyngor llawn. Dylid rhoi dyddiad eu mabwysiadu o dan y Cynnwys. Dylid cyflwyno unrhyw gynnig diweddarach i'w newid i gyfarfod o'r cyngor llawn hefyd.

11) Dylai'r cyngor ofalu ei fod yn gwybod am unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol sy'n effeithio'r sector cynghorau lleol a dylai adolygu a diweddaru ei Reoliadau Ariannol yn flynyddol.

12) Dylech ofalu fod y fersiwn ddiweddaraf a gymeradwywyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y cyngor.

RHEOLIADAU ARIANNOL [RHOWCH ENW'R CYNGOR]

Cynnwys

1. Cyffredinol ..... **Error! Bookmark not defined.**

2. Rheoli risgiau a rheolaeth fewnol ..... **Error! Bookmark not defined.**

3. Cyfrifon ac archwilio ..... **Error! Bookmark not defined.**

4. Y gyllideb a'r praesept ..... **Error! Bookmark not defined.**

5. Caffael ..... **Error! Bookmark not defined.**

6. Bancio a thaliadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

7. Taliadau electronaidd ..... **Error! Bookmark not defined.**

8. Taliadau siec ..... **Error! Bookmark not defined.**

9. Cardiau talu ..... **Error! Bookmark not defined.**

10. Arian mân ..... **Error! Bookmark not defined.**

11. Talu cyflogau a lwfansau ..... **Error! Bookmark not defined.**5

12. Benthyciadau a buddsoddiadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

13. Incwm ..... **Error! Bookmark not defined.**

14. Taliadau trwy gontractau am waith adeiladu neu waith adeiladweithiol arall ..... **Error! Bookmark not defined.**

15. Storau ac offer ..... **Error! Bookmark not defined.**7

16. Asedau, eiddo a stadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

17. Yswiriant ..... **Error! Bookmark not defined.**

18. [Elusennau] ..... **Error! Bookmark not defined.**

19. Atal a diwygio Rheoliadau Ariannol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 1 – Proses dendro ..... **Error! Bookmark not defined.**

Mabwysiadwyd y Rheoliadau Ariannol hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar [rhowch y dyddiad].

## 1. Cyffredinol

1.1. Mae'r rheoliadau ariannol hyn yn rheoli rheolaeth ariannol y Cyngor a'r Cyngor yn unig all eu newid neu eu diwygio trwy benderfyniad. Maent yn un o ddogfennau llywodraethu'r cyngor a rhaid cadw atynt law yn llaw â Rheolau Sefydlog y cyngor.

1.2. Mae disgwyl i gynghorwyr Cyngor ddilyn y rheoliadau hyn ac i beidio annog gweithwyr i'w torri. Mae methu dilyn y rheoliadau hyn yn dwyn anfri ar swydd cynghorydd.

1.3. Gall unrhyw enghraifft o weithiwr yn torri'r rheoliadau hyn yn fwriadol arwain at gamau disgyblu.

1.4. Yn y Rheoliadau Ariannol hyn:

- Mae 'Rheoliadau cyfrifon ac archwilio' yn golygu'r rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Adran 39 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, neu unrhyw ddeddfwriaeth ddisodlol, ac sydd wedyn ar waith, oni nodir yn wahanol.
- Mae "Cymeradwyo" yn cyfeirio at weithred ar-lein, sy'n galluogi trafodiad electronaidd i ddigwydd.
- Mae "Awdurdodi" yn cyfeirio at benderfyniad gan y cyngor, neu bwyllgor neu swyddog, i alluogi rhywbeth i ddigwydd.
- Mae 'arferion priodol' yn golygu'r rhai a nodir yn y *Canllaw i Ymarferwyr*.
- *Canllaw i Ymarferwyr* Llywodraethiant ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr a gyhoeddwyd ar y cyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yng Nghymru.
- Mae 'Rhaid' a **thestun tywyll** yn cyfeirio at gyfrifoldeb statudol na all y cyngor ei newid.
- Mae 'Bydd' yn cyfeirio at gyfarwyddyd anstatudol gan y cyngor i'w aelodau a staff.

1.5. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) yn swydd statudol ac fe'i penodir gan y cyngor. [Penodwyd y Clerc yn SAC ar gyfer y Cyngor hwn a bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol yn hynny o beth.]  Mae'r SAC yn;

- gweithredu o dan gyfarwyddyd polisi'r cyngor;
- gweinyddu materion ariannol y cyngor yn unol â phob Deddf, Rheoliad ac arfer priodol;
- pennu ar ran y Cyngor ei gofnodion cyfrifo a'i systemau rheolaeth gyfrifyddol;
- sicrhau y cedwir at y systemau rheolaeth gyfrifyddol;
- gofalu fod cofnodion cyfrifyddol y Cyngor yn cael eu cadw'n gyfredol;
- cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau; ac
- yn cynhyrchu'r wybodaeth rheolaeth ariannol sy'n ofynnol gan y Cyngor.

1.6. **Ni ddylai'r cyngor ddirprwyo unrhyw benderfyniad ynghylch:**

- **pennu'r gyllideb derfynol neu'r praesept (gofyniad treth y cyngor);**

- **canlyniad adolygiad o effeithiolrwydd ei reolyddion mewnol**
- **cymeradwyo datganiadau cyfrifo;**
- **cymeradwyo datganiad llywodraethu blynyddol;**
- **benthyca;**
- **cyhoeddi ei fod yn gymwys ar gyfer y Grym Cymhwysedd Cyffredinol; a**
- **rhoi sylw i argymhellion gan yr archwilwyr mewnol neu allanol.**

1.7. Hefyd, mae'n rhaid i'r cyngor:

- benderfynu ac adolygu'n rheolaidd y mandad banc ar gyfer holl gyfrifon banc y cyngor;
- cymeradwyo unrhyw grant neu ymrwymiad unigol dros [£5,000].

## 2. Rheoli risgiau a rheolaeth fewnol

2.1. **Rhaid i'r cyngor ofalu fod ganddo system rheolaeth fewnol gadarn, sy'n darparu rheolaeth ariannol, weithredol a risg effeithiol.**

2.2. Bydd y Clerc [gyda'r SAC] yn paratoi, i'w gymeradwyo gan [y cyngor], bolisi rheoli risg ar gyfer holl weithgarwch y cyngor. Bydd y polisi hwn a'r trefniadau rheoli risg sy'n deillio ohono yn cael eu hadolygu gan y cyngor o leiaf yn flynyddol.

2.3. Wrth ystyried unrhyw weithgaredd newydd, bydd y Clerc [gyda'r SAC] yn paratoi asesiad risg drafft gan gynnwys cynigion rheoli risg i'w ystyried gan y cyngor.

2.4. **O leiaf unwaith y flwyddyn, rhaid i'r cyngor adolygu effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol, cyn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.**

2.5. **Bydd rhaid i'r systemau rheolaeth gyfrifyddol a ddewisir gan y SAC gynnwys camau i:**

- **sicrhau y caiff risgiau eu rheoli'n briodol;**
- **sicrhau y caiff trafodion ariannol eu cofnodi'n brydlon a manwl-gywir;**
- **atal a chanfod anghywirdeb neu dwyll; a**
- **galluogi ail-gyfansoddi unrhyw gofnodion a gollwyd;**
- **adnabod dyletswyddau swyddogion sy'n delio â thrafodion a**
- **sicrhau y caiff cyfrifoldebau eu rhannu.**

2.6. O leiaf {unwaith bob chwarter}, ac ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd aelod ac eithrio'r Cadeirydd (neu lofnodydd sieciau] yn cael ei benodi/phenodi i wirio cysoniadau banc (ar gyfer yr holl gyfrifon) a gynhyrchwyd gan y SAC. Bydd yr aelod yn llofnodi'r cysoniadau a'r datganiadau banc gwreiddiol (neu ddogfennau tebyg) yn dystiolaeth o wiriad. Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei adrodd ar ei derfyn, gan gynnwys unrhyw eithriadau, i'r cyngor ac yn cael ei nodi ganddo {gan y Pwyllgor Cyllid }.

2.7. Gwneir copïau wrth gefn rheolaidd o'r cofnodion ar unrhyw un o gyfrifiaduron y cyngor a chânt eu storio naill ai ar-lein neu mewn lleoliad ar wahân i'r cyfrifiadur. Bydd y cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau nad yw'r gallu i ddefnyddio unrhyw un o gyfrifiaduron y cyngor yn cael ei golli os yw gweithiwr yn gadael neu os nad yw'n gallu gweithio am unrhyw reswm.

## 3. Cyfrifon ac archwilio

3.1. Bydd holl weithdrefnau cyfrifo a chofnodion ariannol y cyngor yn cael eu penderfynu gan y SAC yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

3.2. **Rhaid i'r cofnodion cyfrifo a benderfynir gan y SAC fod yn ddigonol i esbonio trafodion y cyngor a datgelu ei sefyllfa ariannol gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg. Yn benodol felly, mae'n rhaid iddynt gynnwys:**

- **cofnodion dyddiol o'r holl arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan y cyngor (a gofnodir yn y llyfr arian) a'r materion y maent yn ymwneud â nhw;**
- **cofnod o asedau a rhwymedigaethau'r cyngor.**

3.3. Caiff y cofnodion cyfrifo eu cynllunio mewn ffordd sy'n hwyluso'r gwaith o baratoi'r datganiadau cyfrifo yn y Datganiad {Llywodraethiant ac Atebolrwydd} Blynyddol.

3.4. Bydd y SAC yn cwblhau ac ardystio Datganiadau Cyfrifo blynyddol y cyngor a gynhwysir yn y Datganiad Llywodraethiant ac Atebolrwydd Blynyddol yn unol ag arferion priodol, cyn gynted ag y mae hynny'n ymarferol wedi diwedd y flwyddyn ariannol. Ar ôl ardystio'r Datganiadau Cyfrifo, bydd y SAC yn eu cyflwyno (gydag unrhyw ddogfennau cysylltiedig) i'r cyngor o fewn y cyfnodau amser a nodir yn y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.

3.5. **Rhaid i'r cyngor ofalu fod system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo ar waith, ac o'i system rheolaeth fewnol yn unol ag arferion priodol.**

3.6. **Bydd unrhyw swyddog neu aelod o'r cyngor yn darparu pa ddogfennau a chofnodion bynnag y mae'r archwilydd mewnol neu allanol yn eu hystyried yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad** a bydd, yn ôl cyfarwyddyd y cyngor, yn rhoi i'r SAC, yr archwilydd mewnol neu'r archwilydd allanol pa wybodaeth ac esboniad bynnag y mae'r cyngor yn eu hystyried yn angenrheidiol i'r perwyl hwnnw.

3.7. Penodir yr archwilydd mewnol gan y cyngor neu un o bwyllgorau'r cyngor a bydd yn cyflawni ei waith i werthuso effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant y cyngor yn unol â'r arferion priodol a nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr.

3.8. Bydd y cyngor yn gofalu fod yr archwilydd mewnol:

- yn gymwys ac yn annibynnol o weithgarwch ariannol y Cyngor;
- yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig neu bersonol rheolaidd i'r Cyngor, ac y cyflwynir o leiaf un adroddiad ysgrifenedig blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol;

- yn arddangos cymhwysedd, gwrthrychedd ac annibyniaeth, a bydd yn rhydd o unrhyw fuddiannau croes gwirioneddol neu dybiedig, gan gynnwys rhai'n deillio o berthnasoedd teuluol; ac
- na fydd ganddynt unrhyw ran yn y penderfyniadau ariannol, nac yn y gwaith o reoli'r cyngor.

3.9. Ni ddylai archwilwyr mewnol o dan unrhyw amgylchiadau:

- gyflawni unrhyw ddyletswyddau gweithrediadol i'r Cyngor;
- cychwyn neu gymeradwyo trafodion cyfrifo;
- darparu cyngor ariannol, cyfreithiol nac o unrhyw fath arall ynghylch unrhyw drafodion i'r dyfodol; na
- chyfarwyddo gwaith unrhyw un o weithwyr y cyngor, ac eithrio i'r graddau y cafodd y cyfryw weithwyr eu priodoli'n briodol i gynorthwyo'r archwilydd mewnol.

3.10. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, o ran yr archwiliad mewnol, bydd gan y termau 'annibynnol' ac 'annibyniaeth' yr un ystyr ag a ddisgrifir yn y Canllaw i Ymarferwyr.

3.11. Bydd y SAC yn gwneud trefniadau ar gyfer galluogi etholwyr i ymarfer eu hawliau o ran y cyfrifon, gan gynnwys y cyfle i archwilio'r cyfrifon, llyfrau a thalebau ac arddangos neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau a dogfennau sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).

3.12. Bydd y SAC, heb unrhyw oedi diangen, yn dwyn i sylw pob cynghorydd unrhyw ohebiaeth neu adroddiad gan archwilwyr mewnol neu allanol.

## 4. Y gyllideb a'r praesept

4.1. **Cyn pennu praesept, rhaid i'r cyngor gyfrifo ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol trwy baratoi a chymeradwyo cyllideb, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 neu ddeddfwriaeth ddilynol.**

4.2. Caiff cyllidebau ar gyfer cyflogau, gan gynnwys cyfraniadau cyflogydd, eu hadolygu gan [y cyngor] yn flynyddol o leiaf ym mis [Hydref] ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a chedwir tystiolaeth o'r fersiwn derfynol mewn atodlen copi papur a lofnodir gan y Clerc a [Chadeirydd y Cyngor neu bwyllgor perthnasol]. {Bydd y SAC yn rhoi gwybod i bwyllgorau am unrhyw oblygiadau cyflogau cyn iddynt ystyried eu cyllidebau drafft.}

4.3. Heb fod yn hwyrach na [mis] bob blwyddyn, bydd y SAC yn paratoi cyllideb ddrafft yn cynnwys amcangyfrifon manwl o'r holl [dderbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant] ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol {ynghyd â rhagolwg ar gyfer y [tair blynedd ariannol]} nesaf, gan roi ystyriaeth i hyd oes asedau a goblygiadau cost atgyweirio neu brynu o'r newydd.

4.4. Ni fydd cyllidebau heb eu gwario ar gyfer prosiectau a gwblhawyd yn cael eu cario drosodd i flwyddyn ddilynol. {Ni ellir ond cario ymlaen arian heb ei wario ar gyfer prosiectau a gwblhawyd yn rhannol (trwy eu rhoi mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi) gyda chymeradwyaeth ffurfiol y cyngor llawn.}

4.5. Mewn achosion priodol, bydd pob pwyllgor (os oes rhai) yn adolygu ei gyllideb ddrafft ac yn cyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cyngor {pwyllgor cyllid} heb fod yn hwyrach na mis [Tachwedd] bob blwyddyn.

4.6. Caiff y gyllideb ddrafft {gydag unrhyw gynigion gan bwyllgorau a rhagolwg [tair blynedd]}, gan gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer defnyddio neu gronni arian wrth gefn, ei hystyried gan y {pwyllgor cyllid ac argymhelliad a wneir i'r} cyngor.

4.7. Wedi ystyried y gyllideb arfaethedig a rhagolwg [tair blynedd], bydd y cyngor yn penderfynu'r gyllideb y mae ei hangen trwy bennu cyllideb. Bydd y cyngor yn pennu praesept ar gyfer y swm hwn erbyn [diwedd Ionawr] man pellaf ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

4.8. **Caiff unrhyw aelod sydd heb dalu treth y cyngor am fwy na dau fis eu gwahardd rhag pleidleisio ar y gyllideb neu'r praesept gan Adran 106 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a rhaid iddynt ddatgelu ar ddechrau'r cyfarfod fod Adran 106 yn effeithio arnynt hwy.**

4.9. Bydd y SAC **yn rhoi manylion y praesept i'r awdurdod bilio erbyn diwedd mis Chwefror man pellaf** a bydd yn rhoi copi o'r gyllideb a gymeradwywyd i bob aelod.

4.10. Mae'r gyllideb a gytunwyd yn sail ar gyfer monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn trwy gymharu gwariant ac incwm gwirioneddol gyda'r hyn a gynlluniwyd.

4.11. Caiff unrhyw ychwanegiad at, neu ddidyniad o, unrhyw gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi eu cytuno gan y cyngor {neu bwyllgor perthnasol}.

## 5. Caffael

5.1. **Mae aelodau a swyddogion yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian ar bob achlysur.** Dylai unrhyw swyddog sy'n caffael nwyddau, gwasanaethau neu waith ofalu, i gymaint graddau ag y mae hynny'n ymarferol, y ceir y telerau gorau sydd ar gael, fel arfer trwy gael prisiau gan nifer o gyflenwyr.

5.2. Dylai'r SAC wirio natur gyfreithlon unrhyw bryniant arfaethedig cyn iddo gael ei wneud ac ar gyfer pryniannau newydd neu anfynych, dylai sicrhau y caiff y grym cyfreithiol a ddefnyddir ei adrodd i'r cyfarfod yr awdurdodir yr archeb ynddo ac y cofnodir hynny yn y cofnodion.

5.3. Rhaid i bob contract gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y cyngor a'r Rheoliadau Ariannol hyn ac ni wneir unrhyw eithriadau, ac eithrio mewn argyfwng.

5.4. **Ar gyfer contract i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith lle y bydd y gwerth amcangyfrifedig yn uwch na'r trothwyon a bennwyd gan y Senedd, rhaid dilyn gofynion llawn Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 neu unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol ("y Ddeddfwriaeth") ar gyfer tendro, dyfarnu a hysbysu am y contract hwnnw.**

5.5. Pan mae'r gwerth amcangyfrifedig yn is na throthwy'r Llywodraeth, bydd y cyngor (ac eithrio eitemau a restrir ym mharagraff 6.12) yn cael prisiau fel a ganlyn:

5.6. Ar gyfer contractau yr amcangyfrifir eu bod dros [£60,000] yn cynnwys TAW, bydd y Clerc yn {gofyn am dendrau ffurfiol gan o leiaf [dri] chyflenwr a gytunwyd gan [y cyngor]} NEU'N {hysbysebu gwahoddiad agored i dendrwyr yn unol ag unrhyw

ddarpariaethau perthnasol y Ddeddfwriaeth}. Gwahoddir tendrau yn unol ag Atodiad 1.

5.7. **Ar gyfer contractau yr amcangyfrifir eu bod dros £30,000 yn cynnwys TAW, rhaid i'r cyngor gydymffurfio ag unrhyw ofynion yn y Ddeddfwriaeth[1] ynghylch cyhoeddi gwahoddiadau a hysbysiadau am ddyfarnu contractau.**

5.8. Ar gyfer contractau dros [£3,000] ac eithrio TAW bydd y Clerc [neu'r SAC] yn gofyn am o leiaf [3] dyfynbris pris-penodol.

5.9. Pan mae'r gwerth rhwng [£500] a [£3,000] ac eithrio TAW, bydd y Clerc [neu'r SAC] yn ceisio cael 3 dyfynbris {allai gynnwys tystiolaeth o brisiau ar-lein, neu brisiau diweddar gan gyflenwyr rheolaidd.}

5.10. Ar gyfer pryniannau llai, bydd [y clerc] yn ceisio cael gwerth am arian.

5.11. **Ni ddylid rhannu contractau er mwyn osgoi cydymffurfio â'r rheolau hyn.**

5.12. Nid oes rhaid defnyddio'r angen i gael prisiau cystadleuol yn y rheoliadau hyn ar gyfer contractau sy'n ymwneud ag eitemau (i) i (iv) isod:

i. gwasanaethau arbenigol, megis gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn gweithredu mewn anghydfodau;

ii. atgyweiriadau i, neu rannau ar gyfer, peiriannau neu offer;

iii. gwaith, nwyddau neu wasanaethau sy'n estyniad i gontract sy'n bod yn barod;

iv. nwyddau neu wasanaethau nad ydynt ar gael oddi wrth un cyflenwr neu sy'n cael eu gwerthu am bris penodol.

5.13. Pan wneir ceisiadau i hepgor y rheoliad ariannol hwn er mwyn gallu cytuno pris heb gystadleuaeth, dylid esbonio'r rheswm mewn argymhelliad i'r cyngor {neu bwyllgor perthnasol}. Nid yw osgoi cystadleuaeth yn rheswm dilys.

5.14. Ni fydd rhaid i'r cyngor dderbyn y tendr, dyfynbris neu amcan bris isaf nac o unrhyw fath arall.

5.15. Gall pryniannau unigol o fewn cyllideb a gytunwyd ar gyfer y math hwnnw o wariant gael ei awdurdodi gan:

- [y Clerc], trwy awdurdod dirprwyedig, ar gyfer unrhyw eitemau o dan [£500] ac eithrio TAW.
- y Clerc, wedi ymgynghori â Chadeirydd y Cyngor {neu Gadeirydd y pwyllgor priodol}, ar gyfer unrhyw eitemau o dan [£2,000] ac eithrio TAW.
- {pwyllgor y cyngor y rhoddwyd grymoedd dirprwyedig priodol iddo ar gyfer yr holl eitemau o wariant o fewn eu cyllidebau dirprwyedig ar gyfer eitemau o dan [£5,000] ac eithrio TAW}

[1] Mae'r Rheoliadau yn mynnu fod cynghorau yn defnyddio gwefan GwerthwchiGymru os ydynt yn hysbysebu cyfleoedd contract a'u bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddyfarnu contractau dros £30,000 yn cynnwys TAW, os cawsant eu hysbysebu ai peidio.

- {ar gyfer grantiau, pwyllgor a gyfansoddwyd yn briodol o fewn unrhyw derfynau a osodwyd gan y cyngor ac yn unol ag unrhyw ddatganiad polisi a gytunwyd gan y cyngor.}
- y cyngor ar gyfer pob eitem dros [£5,000];

Rhaid i awdurdodiad o'r fath gael ei gefnogi gan gofnod (ar gyfer penderfyniadau gan y cyngor neu bwyllgor) neu drywydd tystiolaeth archwiliadwy arall.

5.16. Ni ddylai unrhyw aelod unigol, na grŵp anffurfiol o aelodau, wneud archeb swyddogol {oni chânt eu cyfarwyddo i wneud hynny ymlaen llaw gan benderfyniad y cyngor} na gwneud unrhyw gontract ar ran y cyngor.

5.17. Ni ddylid awdurdodi unrhyw wariant fydd yn fwy na'r gyllideb ar gyfer y math hwnnw o wariant ac eithrio trwy benderfyniad gan y cyngor {neu bwyllgor y dirprwywyd iddo'n briodol yn gweithredu o fewn ei Gylch Gorchwyl} ac eithrio mewn argyfwng.

5.18. Os oes perygl difrifol na fydd y cyngor yn gallu darparu ei wasanaethau neu berygl i ddiogelwch y cyhoedd ar eiddo'r cyngor, gall y clerc awdurdodi gwariant i fyny at [£2,000] ac eithrio TAW ar atgyweirio, amnewid neu waith arall sydd yn eu barn nhw'n angenrheidiol, boed cyllideb ar gyfer gwariant o'r fath ai peidio. Bydd y Clerc yn adrodd ar gamau o'r fath i'r Cadeirydd cyn gynted ag y bo modd ac i'r [cyngor] cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

5.19. Ni ddylid awdurdodi unrhyw wariant, ni ddylid gwneud unrhyw gontract na derbyn tendr ar gyfer unrhyw brosiect sylweddol, onid yw'r [cyngor] yn fodlon fod y cyllid angenrheidiol ar gael a phan mae angen benthyciad, y cafwyd cymeradwyaeth benthyca gan Lywodraeth Cymru yn gyntaf.

5.20. Cyflwynir archeb neu lythyr swyddogol ar gyfer pob gwaith, nwydd a gwasanaeth {dros [£250] ac eithrio TAW} oni chafodd contract ffurfiol ei baratoi neu pe bai archeb swyddogol yn amhriodol. Cedwir copïau o archebion, ynghyd â thystiolaeth y derbyniwyd y nwyddau.

5.21. Gellir camddefnyddio unrhyw system archebu ac fe reolir mynediad atynt gan [y SAC].

## 6. Bancio a thaliadau

6.1. Bydd trefniadau bancio'r Cyngor, gan gynnwys y mandad banc, yn cael eu gwneud gan y SAC a dylent gael eu cymeradwyo gan y Cyngor; ni ellir dirprwyo trefniadau bancio i bwyllgor. Penderfynodd y cyngor fancio gyda [enw'r banc]. Dylent gael eu hadolygu'n [flynyddol] i sicrhau eu bod yn ddiogel ac effeithlon.

6.2. Mae'n rhaid i'r cyngor gael trefniadau diogel ac effeithlon ar gyfer gwneud taliadau, i warchod rhag y posibilrwydd o dwyll neu gamgymeriad. Lle bynnag y bo modd, dylai mwy nac un person fod yn rhan o wneud unrhyw daliad, er enghraifft trwy gael awdurdodiad deuol ar-lein neu ddau berson yn llofnodi sieciau. Hyd yn oed pan gafodd pryniant ei awdurdodi, mae'n rhaid awdurdodi'r taliad hefyd a dim ond taliadau awdurdodedig ddylai gael eu cymeradwyo neu eu llofnodi er mwyn gadael i'r arian adael banc y cyngor.

6.3. Bydd pob anfoneb i'w talu yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn rhifyddol gywir, eu dadansoddi i'r pennawd gwariant priodol a'u dilysu gan [y SAC] i gadarnhau y

cafodd y gwaith, nwyddau neu wasanaethau y mae pob anfoneb yn gysylltiedig ag ef ei dderbyn, ei gyflawni a'i archwilio a'i fod yn cynrychioli gwariant a gymeradwywyd ynghynt gan y Cyngor. {Pan gaiff anfonebau eu hardystio fesul sypyn, bydd hynny'n cynnwys datganiad gan y SAC y cafodd pob anfoneb a restrir eu 'harchwilio, dilysu ac ardystio gan y SAC}.

6.4. Gellir crynhoi taliadau personol (gan gynnwys cyflogau, treuliau ac unrhyw daliad a wneir ynghylch terfynu cyflogaeth) i osgoi datgelu unrhyw wybodaeth bersonol.

6.5. Gwneir pob taliad trwy [fancio ar-lein/siec], yn unol â phenderfyniad gan y cyngor {neu bwyllgor y dirprwywyd iddo'n briodol} {neu benderfyniad dirprwyedig gan swyddog}, onid yw'r [cyngor] yn penderfynu defnyddio dull talu gwahanol.

6.6. {Ar gyfer pob blwyddyn ariannol gall [y SAC] baratoi rhestr o daliadau sy'n codi'n rheolaidd oherwydd contract parhaus neu rwymedigaeth (megis Cyflogau, PAYE, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, rhent, trethi, contractau cynnal a chadw rheolaidd ac eitemau tebyg) y gall y Cyngor {neu bwyllgor a chanddo'r awdurdod priodol} ei awdurdodi ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn}.

6.7. {Caiff copi o'r atodlen hon o daliadau rheolaidd ei lofnodi [gan ddau aelod] ar bob achlysur pan wneir taliad – gan felly leihau'r perygl o daliadau dyblyg.}

6.8. {Cyflwynir adroddiad o unrhyw daliadau o'r fath i gyfarfod priodol nesaf y cyngor neu Bwyllgor Cyllid} er gwybodaeth yn unig.

6.9. Ni fydd y Clerc a'r SAC {ond} yn cael awdurdod dirprwyedig i awdurdodi taliadau o dan yr amgylchiadau canlynol:

i. {unrhyw daliadau i fyny at [£500] ac eithrio TAW, o fewn cyllideb a gytunwyd}.

ii. taliadau i fyny at [£2,000] ac eithrio TAW pan fo perygl difrifol na ellir darparu gwasanaethau'r cyngor neu berygl i ddiogelwch y cyhoedd ar eiddo'r cyngor.

iii. os oes angen gwneud taliad er mwyn osgoi talu llog o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 {neu i gydymffurfio ag amodau contractiol}, pan mae dyddiad dyladwy y taliad cyn cyfarfod arferol nesaf [y cyngor], pan mae'r [Clerc a'r SAC] yn cadarnhau nad oes unrhyw anghydfod neu reswm arall i oedi'r taliad, ar yr amod y cyflwynir rhestr o'r cyfryw daliadau i gyfarfod nesaf priodol y cyngor [neu bwyllgor cyllid }.

iv. trosglwyddo arian oddi fewn i drefniadau bancio'r cyngor i fyny at swm o [£10,000], ar yr amod y cyflwynir rhestr o'r cyfryw daliadau i gyfarfod nesaf priodol y cyngor [neu bwyllgor cyllid].

6.10. Bydd y SAC yn paratoi rhestr o daliadau y mae angen eu hawdurdodi, fydd yn rhan o agenda'r cyfarfod ac, ynghyd â'r anfonebau perthnasol, yn cyflwyno'r rhestr i'r cyngor [neu'r pwyllgor cyllid]. Bydd y cyngor {neu bwyllgor} yn archwilio'r rhestr i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion priodol ac, wedi bodloni ei hun i'r perwyl hwnnw, bydd yn awdurdodi ei thalu trwy benderfyniad. Bydd y rhestr wedi'i chymeradwyo yn cael ei llofnodi â blaenlythrennau yn syth o dan yr eitem olaf gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod. Darperir rhestr fanwl o bob taliad yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw, neu'n atodiad iddynt.

## 7. Taliadau electronaidd

7.1. Pan wneir trefniadau bancio ar y rhyngrwyd gydag unrhyw fanc, penodir [y SAC] yn Weinyddydd Gwasanaeth. Bydd y mandad banc a gymeradwyir gan y cyngor yn nodi [nifer] y cynghorwyr fydd yn cael eu hawdurdodi i gymeradwyo trafodion ar y cyfrifon hynny a bydd isafswm o ddau berson yn rhan o unrhyw broses gymeradwyo ar-lein. {Gall y Clerc fod yn llofnodydd awdurdodedig, ond ni ddylai unrhyw lofnodydd fod yn rhan o gymeradwyo taliad iddyn nhw eu hunain.}

7.2. Bydd gan bob llofnodydd awdurdodedig fodd o weld cyfrifon banc y cyngor ar-lein.

7.3. Ni fydd unrhyw weithiwr na chynghorydd yn datgelu unrhyw PIN na chyfrinair sy'n berthnasol i'r cyngor neu ei drefniadau bancio i unrhyw un na chawsant awdurdod ysgrifenedig gan y cyngor neu bwyllgor y dirprwywyd iddo'n briodol.

7.4. Bydd y Gweinyddydd Gwasanaethau yn paratoi'r holl eitemau i'w talu ar-lein. Danfonir rhestr o daliadau i'w cymeradwyo, ynghyd â chopïau o'r anfonebau perthnasol [trwy e-bost] at [ddau] lofnodydd awdurdodedig.

7.5. Os yw'r Gweinyddydd Gwasanaethau yn absennol am gyfnod estynedig bydd [llofnodydd awdurdodedig] yn paratoi unrhyw eitemau i'w talu cyn i'r Gweinyddydd Gwasanaethau ddychwelyd.

7.6. Bydd dau [gynghorydd sy'n] llofnodyddion awdurdodedig yn gwirio manylion y taliadau trwy eu cymharu â'r anfonebau cyn cymeradwyo pob taliad gan ddefnyddio'r system fancio ar-lein.

7.7. Cedwir tystiolaeth yn dangos pa aelodau a gymeradwyodd y taliad ar-lein {ac fe atodir argraffiad o'r trafodiad yn cadarnhau y gwnaed y taliad i'r anfoneb at ddibenion archwilio}.

7.8. Cyflwynir rhestr lawn o'r holl daliadau a wnaed mewn mis i gyfarfod nesaf y [cyngor] {ac fe'u hatodir i'r cofnodion}.

7.9. Gyda chymeradwyaeth [y cyngor] bob tro, gellir gwneud taliadau rheolaidd (megis nwy, trydan, ffôn, band eang, dŵr, Trethi Cenedlaethol Annomestig, casglu sbwriel, cyfraniadau pensiwn a thaliadau HMRC) trwy ddebyd uniongyrchol amrywiol, ar yr amod y caiff y cyfarwyddiadau eu [llofnodi/cymeradwyo ar-lein] gan [ddau aelod awdurdodedig]. Dylai'r awdurdod i ddefnyddio debyd uniongyrchol amrywiol gael ei adnewyddu gan [y Cyngor] o leiaf bob dwy flynedd.

7.10. Gall y [Cyngor[ benderfynu gwneud taliadau trwy ddulliau BACS neu CHAPS ar yr amod y caiff y cyfarwyddiadau eu llofnodi neu eu tystio gan [ddau lofnodydd banc awdurdodedig] ac y cânt eu cadw a bod [y cyngor] yn cael adroddiad am unrhyw daliadau a wnaed yn y cyfarfod nesaf. Caiff yr awdurdod i ddefnyddio BACS neu CHAPS ei adnewyddu trwy benderfyniad y cyngor o leiaf bob dwy flynedd.

7.11. Os yw'r cyngor yn barnu fod hynny'n briodol, gellir gwneud taliadau penodedig rheolaidd trwy archeb banc, ar yr amod y llofnodir y cyfarwyddiadau {neu eu cymeradwyo ar-lein} gan [ddau aelod], y cedwir tystiolaeth o hyn ac y rhoddir gwybod i'r cyngor am unrhyw daliadau pan gânt eu gwneud. Dylai cyfarwyddo defnyddio archeb banc gael ei adolygu gan [y cyngor] o leiaf bob dwy flynedd.

7.12. Ni ellir ond gwneud newidiadau i fanylion cyfrifon ar gyfer cyflenwyr trwy hysbysiad papur ysgrifenedig gan y cyflenwr wedi'i wirio gan [ddau o] y Clerc [y SAC] [aelod]. Mae hwn yn faes lle y gallai twyll ddigwydd a dylai'r unigolion dan sylw ofalu fod unrhyw newid yn un dilys. Dylid gwirio data a gedwir gyda chyflenwyr bob [dwy flynedd].

7.13. Bydd aelodau a swyddogion yn gofalu fod unrhyw gyfrifiadur a ddefnyddir ar gyfer gwaith ariannol y cyngor yn ddigon diogel, a bod ganddo feddalwedd atal-firysau, atal-sbïo a wal dân sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

7.14. Ni ddylid defnyddio cyfleusterau cofio cyfrineiriau (ac eithrio storfeydd cyfrineiriau diogel sy'n defnyddio trefn ddilysu ac adnabod ar wahân} ar unrhyw gyfrifiadur a ddefnyddir ar gyfer gwaith bancio'r cyngor.

## 8. Taliadau siec

8.1. Bydd sieciau neu archebion i wneud taliad yn unol â phenderfyniad neu benderfyniad a ddirprwywyd yn cael eu llofnodi gan [ddau aelod o'r cyngor] {ac yn cael eu cydarwyddo gan y Clerc}.

8.2. Os oes gan aelod, sydd hefyd yn un o'r llofnodyddion banc, gysylltiad trwy berthynas deuluol neu fusnes â'r sawl sy'n derbyn y taliad, ni ddylai, o dan amgylchiadau arferol, fod yn llofnodydd i'r taliad dan sylw.

8.3. Er mwyn dangos fod y manylion ar y siec neu archeb i dalu yn cytuno gyda'r bonyn neu'r anfoneb neu ddogfen debyg, bydd y llofnodwyr hefyd yn blaenlythrennu bonyn y siec.

8.4. {Fel arfer, ni fydd sieciau neu archebion i dalu yn cael eu cyflwyno i'w llofnodi ac eithrio mewn cyfarfod cyngor {neu bwyllgor} neu'n union cyn neu wedi cyfarfod o'r fath}. Bydd unrhyw lofnodion a gafwyd ac eithrio mewn cyfarfodydd o'r fath yn cael eu hadrodd i'r cyngor [neu Bwyllgor Cyllid] yn y cyfarfod cyfleus nesaf.

## 9. Cardiau talu

9.1. Bydd unrhyw Gerdyn Debyd a ddefnyddir yn cael ei gyfyngu'n benodol i'r Clerc [a'r SAC] a bydd yn gyfyngedig hefyd i uchafswm gwerth un trafodiad o [£500] oni awdurdodir gan y cyngor neu bwyllgor cyllid yn ysgrifenedig cyn gwneud unrhyw archeb.

9.2. Gellir rhoi cerdyn debyd rhagdaledig i weithwyr ag iddo derfynau amrywiol. Pennir y terfynau hyn gan y cyngor. Bydd adroddiad am unrhyw drafodion a phryniannau a wneir yn cael ei gyflwyno i'r [cyngor] ac awdurdodir unrhyw gynnydd yn y terfyn yn ôl doethineb y [cyngor].

9.3. Bydd unrhyw gerdyn credyd corfforaethol neu gyfrif cerdyn masnachu a agorir gan y cyngor yn cael ei gyfyngu'n benodol i'w ddefnyddio gan y Clerc [a'r SAC] {nodwch swyddogion eraill} ac fe delir unrhyw weddill yn llawn bob mis..

9.4. Ni ddefnyddir cardiau credyd neu ddebyd personol aelodau'r staff {o dan unrhyw amgylchiadau} NEU {ac eithrio treuliau i fyny at [£250] yn cynnwys TAW, a wariwyd yn unol â pholisi'r cyngor.}

## 10. Arian mân

10.1. {Ni fydd y Cyngor yn cadw unrhyw fath o gasgliad arian parod. Rhaid i'r holl arian parod a dderbynnir gael ei fancio fel y mae. Bydd unrhyw daliadau a wneir mewn arian parod gan y Clerc [neu'r SAC] (er enghraifft ar gyfer stampiau neu fân nwyddau swyddfa) yn cael eu had-dalu yn rheolaidd, o leiaf yn chwarterol.} **NEU** {Bydd y SAC yn cadw cyfrif arian mân [casgliad arian mân/imprest] o [£250] a gall roi arian mân i swyddogion i ad-dalu treuliau gweithredol ac o fathau eraill.

a) Cedwir talebau ar gyfer taliadau a wnaed o arian mân, ynghyd â derbynebau i gadarnhau pob taliad.

b) Ni ddylid talu incwm mewn arian i mewn i'r casgliad arian mân a dylid ei fancio ar wahân, fel y nodir mewn rhan arall o'r rheoliadau hyn.

Dangosir taliadau i gynnal y casgliad arian mân ar wahân ar unrhyw restr o daliadau a gyflwynir i'w cymeradwyo.}

## 11. Talu cyflogau a lwfansau

11.1. **Fel cyflogydd, rhaid i'r cyngor wneud trefniadau i gydymffurfio â gofynion statudol deddfwriaeth PAYE.**

11.2. **Rhaid cadw'n llawn at ganllawiau a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch trethu lwfansau cynghorwyr.**

11.3. Caiff cyfraddau cyflog eu cytuno gan y cyngor neu bwyllgor y dirprwywyd iddo'n briodol. Ni wneir unrhyw newidiadau i gyflog gros, enillion, neu delerau ac amodau cyflogaeth gweithiwr heb gydsyniad ymlaen llaw gan y cyngor {neu bwyllgor perthnasol}.

11.4. Telir cyflogau, ar ôl didynnu treth, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn ac unrhyw ddidyniadau statudol neu arddewisol tebyg, ar y dyddiadau a nodir mewn contractau cyflogaeth.

11.5. Telir didyniadau o gyflog i'r cyrff perthnasol o fewn y cyfnodau amser angenrheidiol, ar yr amod yr adroddir am bob taliad, fel y nodir uchod yn y rheoliadau hyn.

11.6. Bydd pob taliad cyflog net i weithwyr a'r didyniadau statudol ac arddewisol priodol yn cael eu cofnodi mewn cyfrif rheoli cyflogres neu gofnod cyfrinachol arall, ac adroddir cyfanswm y cyfryw daliadau ymhob mis calendr yn y llyfr arian. Caiff adroddiadau cyflogres eu hystyried gan [y pwyllgor cyllid] i sicrhau y cafodd y taliadau cywir eu gwneud.

11.7. Cefnogir unrhyw daliadau terfynu gan adroddiad i'r cyngor, yn cyflwyno achos busnes clir. Y cyngor llawn yn unig all awdurdodi taliadau terfynu.

11.8. Cyn cyflogi staff dros dro, mae'n rhaid i'r cyngor ystyried achos busnes llawn.

## 12. Benthyciadau a buddsoddiadau

12.1. Rhaid i unrhyw gais am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i fenthyca arian a threfniadau dilynol am fenthyciad gael ei awdurdodi gan y cyngor llawn a'i gofnodi yn y cofnodion. Gwneir pob benthyciad yn enw'r cyngor, ar ôl cael y gymeradwyaeth angenrheidiol.

12.2. Rhaid i bob trefniant ariannol nad oes angen cymeradwyaeth benthyca ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar ei gyfer (megis Hur Bwrcas, lesio asedau diriaethol neu fenthyciadau i'w had--dalu o fewn y flwyddyn ariannol) gael ei awdurdodi gan y

cyngor llawn, yn dilyn adroddiad ysgrifenedig ar werth am arian y trafodiad arfaethedig.

12.3. Bydd y cyngor yn ystyried yr angen am Strategaeth a Pholisi Buddsoddi yn unol â Chanllawiau Statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, y mae'n rhaid ei ysgrifennu yn unol â rheoliadau, arferion priodol a chanllawiau perthnasol. Caiff unrhyw Strategaeth a Pholisi eu hadolygu gan y cyngor o leiaf yn flynyddol.

12.4. Buddsoddir unrhyw arian sydd dan reolaeth y cyngor yn enw'r cyngor.

12.5. Bydd pob tystysgrif buddsoddi a dogfennau eraill yn gysylltiedig â nhw yn cael eu cadw gan y SAC.

12.6. Gwneir taliadau ar gyfer buddsoddiadau tymor byr neu hirdymor, gan gynnwys trosglwyddiadau rhwng cyfrifon banc a gedwir yn yr un banc, yn unol â'r rheoliadau hyn.

**13. Incwm**

13.1. Cyfrifoldeb y SAC fydd casglu a goruchwylio'r holl symiau sy'n daladwy i'r Cyngor.

13.2. Bydd y cyngor yn adolygu pob ffi a thaliad am waith a wnaed, gwasanaethau a ddarparwyd, neu nwyddau a werthwyd o leiaf yn flynyddol fel rhan o broses pennu'r gyllideb, yn dilyn adroddiad gan y Clerc. Bydd [y SAC] yn gyfrifol am gasglu'r holl symiau sy'n ddyledus i'r cyngor.

13.3. Bydd gwybodaeth am unrhyw symiau y bernir na ellir eu hadennill ac unrhyw ddyledion coll yn cael ei chyflwyno i'r cyngor gan [y SAC] a byddant yn cael eu dileu yn ystod y flwyddyn. Dangosir cymeradwyaeth y cyngor yn y cofnodion cyfrifo.

13.4. Bydd pob swm a dderbynnir ar ran y cyngor yn cael eu talu i fancwyr y cyngor, yn unol â chyfarwyddyd y SAC. Bydd tarddiad pob swm a dderbynnir yn cael ei gofnodi'n glir ar y slip talu mewn neu gofnod arall.

13.5. Ni chaiff sieciau personol eu talu allan o arian sy'n cael ei ddal ar ran y cyngor.

13.6. {Bydd y SAC yn gofalu fod TAW yn cael ei gofnodi'n gywir ym meddalwedd cyfrifo'r cyngor a bod unrhyw Adroddiad TAW sydd ei angen yn cael ei gyflwyno gan y feddalwedd erbyn y dyddiad priodol}. NEU {Gwneir unrhyw hawliad ad-daliad o dan Adran 33 Deddf TAW 1994 yn {chwarterol pan mae'r hawliad yn fwy na [£100] ac} o leiaf yn flynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.}

13.7. {Pan mae'r cyngor yn derbyn symiau sylweddol o arian parod yn rheolaidd, bydd y SAC yn sicrhau bod mwy nac un person yn bresennol pan gaiff yr arian ei gyfrif am y tro cyntaf, y ceir trefn gysoni gyda rhyw fath o reolaeth fel rhifau tocynnau, ac y cymerir gofal priodol o ran diogelwch unigolion sy'n bancio arian o'r fath.}

13.8. {Caiff unrhyw incwm sy'n eiddo i ymddiriedolaeth elusennol ei dalu i mewn i gyfrif banc elusennol. Rhoddir cyfarwyddiadau ar gyfer talu arian sy'n ddyledus o'r ymddiriedolaeth elusennol i'r cyngor (i ad-dalu am wariant a wnaed eisoes gan yr awdurdod) i Reolwyr Ymddiriedolwyr yr elusen fydd yn cyfarfod ar wahân i unrhyw gyfarfod cyngor.}

**14. Taliadau trwy gontractau am waith adeiladu neu waith adeiladweithiol arall**

14.1. Pan mae contractau yn darparu ar gyfer talu trwy randaliadau bydd y SAC yn cadw cofnod o bob taliad o'r fath, a wneir o fewn y cyfnod amser a nodwyd yn y contract yn seiliedig ar dystysgrifau wedi'u llofnodi gan y pensaer neu ymgynghorydd arall a gyflogwyd i oruchwylio'r gwaith.

14.2. Rhaid i unrhyw amrywiad i, ychwanegiad at neu hepgoriad o gontract gael ei awdurdodi gan [y Clerc] yn ysgrifenedig i'r contractwr, a rhoddir gwybod i'r cyngor ble y tybir fod y gost derfynol yn debygol o fod 5% neu fwy uwchben swm y contract, neu'n debygol o fod yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael.

**15. Storau ac offer**

15.1. {[Bydd y swyddog sy'n gyfrifol am bob adran] yn gyfrifol am ofalu am storau ac offer [yn yr adran honno].}

15.2. Rhaid cael nodiadau cyflenwi ar gyfer yr holl nwyddau a dderbyniwyd i'w storio neu a gyflenwyd mewn unrhyw fodd arall ac mae'n rhaid gwirio nwyddau o ran yr archeb a'u hansawdd ar yr adeg y gwneir y cyflenwad.

15.3. {Cedwir stociau ar y lefelau isaf derbyniol yn gydnaws â gofynion gweithredol.}

15.4. {Bydd y SAC yn gyfrifol am wneud archwiliadau achlysurol o stociau a storau, a hynny o leiaf yn flynyddol.}

**16. Asedau, eiddo a stadau**

16.1. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau addas ar gyfer storio holl weithredoedd eiddo a Thystysgrifau Cofrestrfa Dir eiddo sydd ym mherchnogaeth y cyngor.

16.2. Bydd y SAC yn gofalu y cedwir Cofrestr Asedau a Buddsoddiadau briodol a manwl-gywir, a chofnod o bob eiddo ym mherchnogaeth y cyngor, yn cofnodi lleoliad, maint, cynllun, cyfeirnod, manylion prynu, natur y budd, tenantiaethau a ganiatawyd, rhenti sy'n daladwy a'u pwrpas yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru).

16.3. Bydd y ffaith fod yr asedau diriaethol a ddangosir yn y Gofrestr yn dal i fodoli yn cael ei gadarnhau o leiaf yn flynyddol, efallai ar yr un pryd ag y cynhelir archwiliad iechyd a diogelwch o asedau.

16.4. Ni chaiff unrhyw fuddiannau mewn tir ei brynu neu ei gaffael mewn unrhyw ffordd arall, ei werthu, ei lesio na'i waredu mewn unrhyw ffordd arall heb awdurdod y cyngor, ynghyd ag unrhyw gydsyniadau eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Ym mhob sefyllfa, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r cyngor ar werth a chyflwr archwiliedig yr eiddo (gan gynnwys materion fel caniatadau cynllunio a chyfamodau) ynghyd ag achos busnes llawn (gan gynnwys lefel digonol o ymgynghori gyda'r etholwyr pan mae'r gyfraith yn mynnu hynny).

Ni chaiff unrhyw eiddo symudol diriaethol ei brynu na'i gaffael mewn unrhyw ffordd arall, ei werthu, ei lesio na'i waredu mewn unrhyw ffordd arall heb awdurdod y cyngor, ynghyd ag unrhyw gydsyniadau eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac eithrio pan nad yw gwerth tybiedig unrhyw un darn o eiddo diriaethol, symudadwy yn fwy na [£500]. Ymhob sefyllfa rhaid cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r cyngor yn cynnwys achos busnes llawn.

**17. Yswiriant**

17.1. Bydd y SAC yn cadw cofnod o bob yswiriant a drefnwyd gan y cyngor ac o'r eiddo a'r risgiau a warantir ganddo a bydd yn ei adolygu'n flynyddol cyn y dyddiad adnewyddu law yn llaw ag adolygiad y cyngor o reoli risgiau.

17.2. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod yn syth i'r [SAC] am bob risg, eiddo neu gerbydau newydd y mae angen eu hyswirio ac am unrhyw newidiadau sy'n effeithio yswiriannau presennol.

17.3. Bydd y SAC yn cael gwybod am unrhyw golled rhwymedigaeth neu ddifrod neu am unrhyw ddigwyddiad sy'n debyg o arwain at hawliad, a bydd yn rhoi gwybod [i'r cyngor] amdanynt yn y cyfarfod nesaf. Bydd y SAC yn trafod pob hawliad i yswirwyr y cyngor {wedi ymgynghori â'r Clerc}.

17.4. Cynhwysir holl weithwyr priodol y cyngor mewn math addas o sicrhad neu yswiriant gwarantu ffyddlondeb fydd yn gwarantu rhag y perygl uchaf o risg fel y penderfynir hynny [yn flynyddol[] gan y cyngor, neu bwyllgor y dirprwywyd y mater iddo'n briodol.

**18. [Elusennau]**

18.1. Pan mai'r cyngor yw unig ymddiriedolydd corff elusennol bydd y Clerc a'r SAC yn gofalu y cedwir cyfrifon ar wahân o'r arian a gedwir mewn ymddiriedolaethau elusennol ac fe wneir adroddiadau ariannol ar wahân ar ba ffurf bynnag sy'n addas, yn unol â Chyfraith Elusennol a deddfwriaeth, neu yn ôl gofynion y Comisiwn Elusennol. Bydd y Clerc a'r SAC yn trefnu unrhyw archwiliad neu arolygiad annibynnol sy'n ofynnol gan Gyfraith Elusennol neu unrhyw Ddogfen Lywodraethu.]

**19. Atal a diwygio Rheoliadau Ariannol**

19.1. Bydd y cyngor yn adolygu'r Rheoliadau Ariannol hyn [yn flynyddol] ac wedi penodi clerc neu SAC newydd. Bydd y Clerc yn monitro newidiadau deddfwriaethol neu mewn arferion priodol a bydd yn rhoi gwybod i'r cyngor am unrhyw angen dilynol i wneud newid i'r Rheoliadau Ariannol hyn.

19.2. Gall y cyngor, trwy benderfyniad y cyngor a hysbyswyd yn briodol cyn cyfarfod perthnasol y cyngor, atal unrhyw ran o'r Rheoliadau Ariannol hyn, ar yr amod y cofnodir y rhesymau dros yr atal ac y cynhaliwyd asesiad o'r risgiau allai ddeillio o hynny ac y cafodd ei gyflwyno ymlaen llaw i holl aelodau'r cyngor. Nid yw eu hatal yn datgymhwyso unrhyw ddeddfwriaeth nac yn caniatáu i'r cyngor weithredu'n anghyfreithlon.

19.3. Gall y cyngor, trwy benderfyniad y cyngor a hysbyswyd yn briodol, atal y Rheoliadau Ariannol hyn dros dro, i ymdopi â chyfnodau absenoldeb, ad-drefnu llywodraeth leol, cyfyngiadau cenedlaethol neu amgylchiadau eithriadol eraill.

**Atodiad 1 - Proses dendro**

1) Bydd unrhyw wahoddiad i dendro yn datgan natur gyffredinol y contract arfaethedig a bydd y Clerc yn trefnu'r cymorth technegol angenrheidiol er mwyn paratoi manyleb mewn sefyllfaoedd priodol.
2) Bydd y gwahoddiad yn datgan hefyd fod rhaid cyfeirio tendrau at y Clerc trwy'r post arferol, oni chytunwyd proses dendro electronaidd gan y cyngor.
3) Pan ddefnyddir proses bost, bydd pob cwmni tendro yn derbyn amlen wedi'i marcio'n benodol y dylid selio'r tendr ynddi a dylai barhau wedi'i selio tan y dyddiad a nodwyd ar gyfer agor tendrau am y contract hwnnw. Caiff pob tendr wedi'i selio eu hagor ar yr un pryd ar y dyddiad a nodwyd gan y Clerc ym mhresenoldeb o leiaf un aelod o'r cyngor.
4) Pan ddefnyddir proses dendro electronaidd, bydd y cyngor yn defnyddio cyfeiriad e-bost penodol fydd yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw neb yn agor unrhyw dendr cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau.
5) Bydd unrhyw wahoddiad i dendro trwy'r rheoliad hwn yn gaeth i Reol Sefydlog [cynhwyswch gyfeiriad at reol sefydlog berthnasol y cyngor] a bydd yn cyfeirio at amodau Deddf Llwgrwobrwyo 2010.
6) Pan nad yw'r cyngor, neu bwyllgor y dirprwywyd iddo'n briodol, yn derbyn unrhyw dendr, dyfynbris neu amcan bris, ac na chaiff y gwaith ei roi a bod y cyngor yn gwahodd rhagor o brisiau, ni chaniateir i unrhyw berson gyflwyno tendr, dyfynbris neu amcan bris diweddarach oedd yn bresennol pan gynhaliwyd y broses gwneud penderfyniad wreiddiol.